

Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Ar gyfer rhieni ag anabledd dysgu

**Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthy ch chi beth
mae'r gyfraith yn ei ddweud am eich hawliau**



Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y llyfryn yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu.

Mae rhai geiriau yn anodd i'w deall efallai. Maen nhw mewn **ysgrifen glas clir** ac maen nhw wedi cael eu hesbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio eto yn y llyfryn maen nhw'n cael eu dangos mewn **ysgrifen glas normal**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen glas normal**, ewch i'r **Geiriau anodd** ar dudalen 14 i weld beth maen nhw'n feddwl.



Cafodd y llyfryn yma ei wneud yn hawdd ei ddeall ar gyfer y Rhwydwaith Gweithio ar y Cyd gyda Rhieni gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols.

Mae'r llyfryn yma yn rhan o set o 4 llyfryn am eich hawliau fel rhiant:



Llyfryn 1 — Eich hawliau pan rydych chi'n feichiog



Llyfryn 2 — Eich hawliau pan mae eich babi yn cael ei eni



Llyfryn 3 — Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Llyfryn 4 — Eich hawliau pan mae eich plentyn yn cael ei gymryd

I gael rhagor o gopïau o unrhyw un o'r llyfrynnau yma cysylltwch gyda Samantha Williams, Cydlynnydd Polisi a Rhwydwaith:



Ffôn: 029 2068 1160

E-bost: samantha.williams@ldw.org.uk



Gwefan: www.adcymru.org.uk/prosiectau/prosiectau-cyfredol/gweithio-ar-y-cyd-gyda-rhieni

Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn	2
Cyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol.....	5
Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol.....	5
Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall.....	7
Eich hawl i fynd i gyfarfodydd	9
Eich hawl i gael eich clywed	10
Eich hawl i gefnogaeth	11
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.....	12
Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw.....	14
Geiriau anodd	15

Cyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol



Mae'r rhan fwyaf o'r hawliau yn y llyfryn yma yn dod o'r gyfraith Ewropeaidd ar hawliau dynol.



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i'r bobl sydd yn eich cefnogi gadw eich hawliau dynol.

Mae yna wahanol rannau i'r gyfraith o'r enw **Erthyglau**.



Mae **Erthyglau** yn rhan o ddeddf. Mae gan yr **Erthyglau** rifau felly rydych chi'n gwybod pa **Erthygl** sydd yn rhoi'r hawliau i chi.

Eich hawliau gyda gwasanaethau cymdeithasol



Efallai y bydd pobl eraill yn poeni pa mor dda y byddwch yn gallu gofalu am eich babi.

Efallai y byddan nhw'n poeni os ydy eich plentyn yn ddiogel.

Efallai y bydd pobl eisiau i chi gael cefnogaeth i ofalu am eich plentyn.



Efallai y bydd gweithiwr cymdeithasol yn dod i'ch gweld.

Fe fydd yna lawer o gyfarfodydd i siarad am beth sydd orau i'ch plentyn.



Fe fydd yna staff o'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn y cyfarfodydd.



Mae **Erthygl** 8 yn dweud bod gennych hawl i fod yn yr holl gyfarfodydd.



Mae gennych hawl i'r plentyn fyw gyda chi tan bod yr holl gyfarfodydd yn digwydd. Mae hyn yn gallu cymryd misoedd.



Ond os ydy'r gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl bod eich plentyn yn gallu bod mewn perygl difrifol maen nhw'n gallu mynd â'ch plentyn i ffwrdd.

Eich hawl i wybodaeth sydd yn hawdd i chi ei deall



Mae **Erthygl** 14 yn dweud bod gennych hawl i gael eich trin yn deg.



Rhaid rhoi gwybodaeth i chi yn y ffordd orau i chi ei deall. Mae hyn yn cynnwys cael yr wybodaeth yn Gymraeg.



Rhaid rhoi digon o amser i chi ddeall yr wybodaeth.

Mae hyn yn golygu cael yr wybodaeth rydych chi ei angen **cyn** y cyfarfodydd.



Mae gennych hawl i weld pa wybodaeth sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol amdanoch chi.




Mae hyn yn golygu eich bod yn gallu gweld beth mae gweithwyr cymdeithasol yn ei ysgrifennu amdanoch chi. Mae'r hawl yma'n dod o ddeddf Brydeinig o'r enw Deddf Diogelu Data.



Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu i ofyn am yr wybodaeth sydd gan y gwasanaethau cymdeithasol amdanoch chi.

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.



Weithiau mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu dweud **na** i adael i chi weld eich gwybodaeth.

Mae **eiriolydd** yn gallu esbonio pan mae hynny'n digwydd.

Eich hawl i fynd i gyfarfodydd



Mae **Erthygl** 8 yn dweud bod gennych hawl i fod mewn cyfarfodydd lle mae pobl yn siarad am eich plentyn.



Mae'r cyfarfodydd yn gallu bod am:

- pa mor dda rydych chi'n wneud fel rhiant
- pwy fydd yn gofalu am eich plentyn
- pryd rydych chi'n cael gweld eich plentyn os nad ydy e'n byw gyda chi.




Rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn deg.




Rhaid i chi fod yn rhan o'r penderfyniadau am eich plentyn pan mae hynny'n bosibl.

Eich hawl i gael eich clywed



Mae **Erthygl** 6 yn dweud bod rhaid i chi gael cyfle teg i gael dweud beth rydych yn ei feddwl ac i gael eich clywed.

Felly mae rhaid i chi gael cyfle i ddweud beth rydych yn ei feddwl mewn unrhyw gyfarfod am eich plentyn.



Efallai bod cyfarfodydd yn anodd i'w deall. Efallai y bydd hi'n anodd i chi gael dweud beth rydych yn ei feddwl.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol wneud yn siŵr eich bod yn cael eich cefnogi i ddweud beth rydych yn ei feddwl mewn cyfarfodydd.

Mae gennych hawl i ddweud beth rydych yn feddwl am lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol eisiau i'ch plentyn fyw.

Eich hawl i gefnogaeth



Efallai y bydd rhaid i chi fynd i'r llys ynghylch pwy sydd yn gofalu am eich plentyn.

Mae gennych hawl i **gyfreithiwr** a **chyfryngwr**.



Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Cyfryngwr ydy person sydd wedi'i hyfforddi i'ch cefnogi yn y llys trwy esbonio geiriau anodd.



Rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol neu **eiriolydd** ddweud wrthych chi sut i gael y gefnogaeth yma pan fyddwch ei angen.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

 Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

Deddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant
(Cymru) 2014



Dim ond yng Nghymru mae'r ddeddf yma. Mae'n dweud bod rhaid i wasanaethau cymdeithasol:



- helpu plant i dyfu'i fyny yn eu teulu eu hunain lle mae hynny'n bosibl



- gwrando ar beth rydych chi eisiau cyn belled â bod hynny'n ddiogel



- gwrando ar bobl sydd yn adnabod y plentyn

- ei gwneud yn hawdd i chi gadw mewn cysylltiad gyda'ch plentyn



- dweud wrthy'ch chi lle mae'r plentyn yn byw cyn belled â bod hynny'n ddiogel.

Mae'r ddeddf yma hefyd yn dweud y dylai plant fyw:



- yn agos at eu cartref cyn belled â bod hynny'n ddiogel



- gyda'u brodyr a'u chwiorydd
- lle maen nhw'n gallu cario ymlaen gyda'u hysgol.

Beth i'w wneud pan nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw



Efallai eich bod yn teimlo nad ydy eich hawliau'n cael eu cadw.



Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu i siarad gyda'r gwasanaethau cymdeithasol am hyn.

Mae gennych hawl i gwyno am beth mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn ei wneud.



Mae **eiriolydd** yn gallu eich helpu gyda hyn. Maen nhw'n gallu helpu:

- i wneud pethau'n iawn
- neu esbonio pam nad ydy hi'n bosibl newid pethau.

Geiriau anodd

Cyfreithiwr

Cyfreithiwr ydy rhywun sydd wedi'u hyfforddi i ddeall y gyfraith.

Cyfryngwr

Cyfryngwr ydy person sydd wedi'i hyfforddi i'ch cefnogi yn y llys trwy esbonio geiriau anodd.

Eiriolydd

Eiriolydd ydy person sydd yn siarad drosoch chi neu yn eich helpu i siarad drosoch eich hun.

Erthyglau

Mae Erthyglau yn rhan o ddeddf. Mae gan yr Erthyglau rifau felly rydych chi'n gwybod pa Erthygl sydd yn rhoi'r hawliau i chi.